

Cyfleoedd i gwrdd â gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd: Rhifyn 11

Nodir isod gyfleoedd i gwrdd â gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

LLYTHRENNEDD: DARLLEN

Yn gyffredinol, wrth ddarllen drwy'r cylchgrawn, mae cyfleoedd i ddisgyblion **ganfod, dethol a defnyddio gwybodaeth** drwy:

- ddefnyddio'u gwybodaeth o darddiadau a theuluoedd geiriau
- ddefnyddio'u gwybodaeth o gystrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan
- ddefnyddio'u gwybodaeth o'r cynnwys a'r cyd-destun
- gwneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan
- defnyddio ystod o strategaethau, *e.e. darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi*, i gip ddarllen (sgimio) testunau i gael y neges, y syniadau a'r themâu allweddol, a'u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl
- dewis a dethol pa ffynonellau ar y rhyngwyd i'w lawrlwytho neu i'w dyfynnu, yn ôl eu dibynadwyedd a'u perthnasedd

Mae cyfleoedd i **ymateb i'r hyn a ddarllenwyd drwy:**

- canolbwyntio wrth ddarllen testunau, ar sgrin ac ar bapur, sydd yn newydd iddynt gan ddeall y wybodaeth sydd ynddynt
- dod o hyd i wybodaeth a thystiolaeth ychwanegol o ffynonellau gwahanol a'u defnyddio'n ddethol
- defnyddio, casglu a dehongli i ddeall haenau o ystyr
- darllen o amgylch pwnc sydd o ddiddordeb iddynt a datblygu dealltwriaeth ehangach drwy ymchwilio
- crynhoi a chyfuno gwybodaeth, *e.e. cyfrif cryno o bwnc eang*, gan ddefnyddio ffynonellau gwahanol
- adnabod gwahanol safbwyntiau ar bwnc ac unrhyw feysydd lle ceir cytuno a gwrth-ddweud
- gwerthuso testunau yn ôl eu hansawdd a'u lefel diddordeb.

LLYTHRENNEDD: LLAFAREDD

Mae cyfleoedd i **ddatblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau drwy:**

Siarad:

- cyflwyno pynciau a syniadau'n gydlynus, gan ddefnyddio technegau'n effeithiol, *e.e. strwythur clir, hanesyn i gyflwyno enghraifft, casgliadau credadwy*

- ymateb i farn eraill yn gadarnhaol a phriodol o gael eu herio
- defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun

Gwranddo

- ymateb yn gadarnhaol ac ystyrllon i syniadau newydd a safbwyntiau gwahanol
- gwranddo ar wybodaeth a syniadau (ar sgrin neu'n fyw) a nodi sut mae tystiolaeth yn cael ei ddefnyddio

Cydweithio a thrafod

- cymryd amrywiaeth o rolau, *e.e. trefnu, rhoi camau gweithredu ar waith*, mewn cyd-destunau grŵp mwy ffurfiol, *e.e. wrth weithio gydag oedolion a chyfoedion anghyfarwydd*
- trafod safbwyntiau cyferbyniol, a thrafod y camau nesaf.

LLYTHRENNEDD: YSGRIFENNU AR DRAWS Y CWRICWLWM

Wrth ymgymryd â gwaith ysgrifennu, mae cyfleoedd i **drefnu syniadau a gwybodaeth** drwy:

- addasu cyflwyniad y deunyddiau yn ôl bwriad yr ystyr a'r effaith, *e.e. dewis faint o fanylion sy'n angenrheidiol i argyhoeddi*
- wrth gynllunio gwaith ysgrifennu, gwneud dewisiadau ynglŷn â'r cynnwys, strwythur, iaith, cyflwyniad sy'n addas at y diben
- ystyried y ffyrdd gorau o gyflwyno ysgrifennu gan ddefnyddio TGCh er mwyn cyfathrebu'n glir ac effeithiol
- defnyddio meini prawf i adnabod ffyrdd o wella ac yna ailddrafftio
- defnyddio strwythur testun cyfan i fod yn gymorth i gyfleu a chyfathrebu'r ystyr
- dewis, dadansoddi a chyflwyno syniadau a gwybodaeth yn wrthrychol
- trefnu darnau ysgrifennu hirach gan wneud cysylltiadau o fewn a rhwng paragraffau

Mae cyfleoedd i **ysgrifennu'n gywir**

- ysgrifennu'n ramadegol gywir, gan amrywio hyd a strwythur brawddegau i wneud i'r ystyr fod yn glir
- ysgrifennu'n ramadegol gywir gan sicrhau bod amser a pherson y ferf yn gywir fel arfer yn ei gyd-destun
- defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun
- defnyddio'r ystod lawn o atalnodi er mwyn gwneud i'r ystyr fod yn glir, *e.e. yr hanner colon, y colon a dyfynodau*
- defnyddio amryw o strategaethau ac adnoddau i sillafu geirfa gyfarwydd ac anghyfarwydd a geiriau pwnc benodol yn gywir
- cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy.

RHIFEDD

Defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhifau

- Mae cyfleoedd i “ddarllen ac ysgrifennu rhifau o unrhyw faint” wrth drafod poblogaeth Zanzibar, India a Japan a gellid ystyried poblogaeth Cymru yn ogystal.

Adnabod prosesau a chysylltiadau

- Mae cyfleoedd i “drosglwyddo sgiliau mathemategol ar draws y cwricwlwm mewn amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd bob dydd” e.e. ar lefel elfennol drwy ddelio gygag arian (yn y darn Cyffrous!)

Rheoli arian

- Mae cyfleoedd i “gyfrifo gan ddefnyddio arian tramor a graddfeydd cyfnewid” wrth drafod yr arian a ddefnyddir yn Zanzibar, India a Japan ac ystyried gwerth yr arian hwnnw yn erbyn y ddoler a’r bunt (Blwyddyn 9 yn y fframwaith). Gweler Ymlacio ar draws y byd (1), (2) a (3).

Ffracsiynau, degolion, canrannau a chymhareb

- Cyfrifo canrannau symiau gan ddefnyddio dulliau digyfrifiannell lle y bo’n briodol (e.e. yn y darn **Ydych chi o dan straen?**)